Gwyliwch y fideos ac atebwch y cwestiynau canlynol Gallwch ddewis dilyn arddull y cyfarwyddwr, y dylunydd neu’r actor sydd i'w gweld yn ein ffilmiau fel dull o lywio rhai o'ch ymatebion, er ei bod yn hanfodol eich bod yn defnyddio eich dehongliadau a'ch creadigrwydd eich hun yn yr atebion hyn. Dylech anelu at dreulio 1 awr a 15 munud ar bob cwestiwn.

1. Darllenwch o dudalen **26** hyd at ddiwedd Act 1, Golygfa 9 ar dudalen **30**.

(a) Fel **dylunydd**, dyfeisiwch wisgoedd ar gyfer dau gymeriad yn y darn hwn gan esbonio sut y gellir cyfleu ystyr drwyddynt.
b) Dadansoddwch a gwerthuswch sut y mae unrhyw gynyrchiadau theatr byw yr ydych wedi'u gweld fel rhan o'r cwrs wedi dylanwadu ar y dewisiadau hyn.
c) Fel **cyfarwyddwr**, trafodwch sut y gellir cyfleu ystyr drwy symudiadau cymeriad a chydberthnasau gofodol ar lwyfan yn y darn hwn.

2. Darllenwch o dudalen **40** hyd at waelod tudalen **43**.

a) Fel **cyfarwyddwr**, eglurwch sut y byddech yn dehongli **Act 1 Golygfa 14** ar gyfer cynulleidfa gyfoes a dangoswch sut y mae eich syniadau yn cysylltu â'r ddrama yn ei chyfanrwydd.
b) Dadansoddwch a gwerthuswch sut y mae unrhyw gynyrchiadau theatr byw yr ydych wedi'u gweld fel rhan o'r cwrs wedi dylanwadu ar eich dehongliad.
c) Fel **actor**, trafodwch sut fyddech chi'n defnyddio llais a symud i ddehongli cymeriad **Wyn Griffith (Hen)** yn y darn hwn.

3. Darllenwch o dudalen **64** hyd at dudalen **67** (Act 3, Golygfa 1).

a) Fel **dylunydd**, trafodwch eich dewis o lwyfan, dull cynhyrchu, set a phropiau ar gyfer y darn hwn, gan egluro sut mae eich dewisiadau yn creu awyrgylch.
b) Dadansoddwch a gwerthuswch sut y mae unrhyw gynyrchiadau theatr byw yr ydych wedi'u gweld fel rhan o'r cwrs wedi dylanwadu ar y dewisiadau hyn.
c) Fel **actor**, trafodwch sut fyddech chi'n defnyddio llais a symud i ddehongli cymeriad **General Evans** yn y darn hwn.

4. Darllenwch **Act 1, Golygfa 5**.

a) Fel cyfarwyddwr, eglurwch sut y byddech yn dehongli themâu oferedd rhyfel a gwladgarwch o dudalen 9 hyd at dudalen 13 i gynulleidfa gyfoes. Dylech egluro sut mae eich syniadau yn cysylltu â'r ddrama yn ei chyfanrwydd.
b) Dadansoddwch a gwerthuswch sut y mae unrhyw gynyrchiadau theatr byw yr ydych wedi'u gweld fel rhan o'r cwrs wedi dylanwadu ar eich dehongliad.

5. Darllenwch **Act 3, Golygfa 2**.

a) Fel dylunydd, eglurwch sut y byddech yn dehongli themâu **marwolaeth a cholled** o dudalen **68** hyd at dudalen **70** i gynulleidfa gyfoes. Dylech egluro sut mae eich syniadau dylunio yn cysylltu â'r ddrama yn ei chyfanrwydd.

b) Dadansoddwch a gwerthuswch sut y mae unrhyw gynyrchiadau theatr byw yr ydych wedi'u gweld fel rhan o'r cwrs wedi dylanwadu ar eich dehongliad.